

16/02/2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Trefniadau Hanner Tymor Nesaf

Bydd yr holl ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, Chwefror 28^{ain} ac wrth i'r ysgol ailagor, roeddwn yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y ffordd y byddwn yn gweithio am weddill y tymor, ac i dynnu syw ar rai newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar bawb ohonom.

1. Gorchuddion wyneb:

Ar ôl hanner tymor ni fydd angen gorchuddion wyneb yn yr ystafelloedd dosbarth mwyach. Fodd bynnag, dylid parhau i'w gwisgo ym mhob ardal gymunedol arall dan do – fel coridorau a'r ffreutur. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gludiant ysgol.

2. Profion Llif Unffordd:

Argymhellir nawr bod holl staff a myfyrwyr ysgolion uwchradd yn mynd yn ôl at brofi ddwywaith yr wythnos cyn mynd i'r ysgol gan ddefnyddio PLIU (nos sul/bore Llun a nos Fercher/bore lau) ac yn cofnodi eu canlyniadau ar-lein [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/covid-19-rapid-lateral-flow-test-result). Os nad ydych eto wedi rhoi caniatâd i'ch plentyn dderbyn profion PLIU gennym a'u defnyddio, cysylltwch â'r tîm bugeiliol a fydd yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i chi, neu fel arall, gallwch roi eich caniatâd drwy glicio ar y ddolen briodol ar ein gwefan yma: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/en_gb/covid-19-lft-testing/

3. Ynysu ar gyfer achosion C19 positif:

Ar 05/01/22 nododd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd y rhai nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau ac sydd wedi cael prawf llif unffordd positif yn cael eu cynghori mwyach i gael prawf PCR dilynol oni bai eu bod yn cael eu cynghori i wneud hynny gan POD (TTP). Fodd bynnag, os oes gan unrhyw fyfyrwr symptomau COVID-19, dylent archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Yn y naill achos neu'r llall, dylai myfyrwyr sy'n cael canlyniad prawf positif hunanynysu. Mae'r cyfnod hunanynysu yn parhau i fod yn 10 diwrnod, ond os yw eich plentyn yn cofnodi profion llif unffordd negyddol ar **ddiwrnod 5 a diwrnod 6** o'r cyfnod hunanynysu, gallant orffen eu cyfnod hunanynysu yn gynnar ar **ddiwrnod 6** (a dychwelyd i'r ysgol).

4. Cysylltiadau cartref:

Y tymor hwn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rydym yn gofyn i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag aelod o'r teulu sydd wedi profi'n positif i gwblhau prawf llif unffordd dyddiol am gyfnod o 7 diwrnod. Cyn belled â bod y profion hyn yn parhau i fod yn negyddol, gall eich plentyn barhau i fynychu'r ysgol.

Newyddion eraill

Gan adael Coronafeirws, mae gennym nifer o ddiwyddiadau cyffrous eraill ar y gweill yr wyf yn awyddus i dynnu'ch sylw atynt ymlaen llaw:

1. Diwrnod y Llyfr: Ddydd Iau, Mawrth 3^{ydd} byddwn yn cynnal diwrnod dim gwisg ysgol i godi arian ar gyfer llyfrgell yr ysgol ac elusen diwrnod y llyfr ei hun. Hoffem annog myfyrwyr i wisgo 'gwisg ffansi', gan wisgo fel cymeriad llenyddol neu'r cyfryngau o'ch dewis a bydd gwobrau ar gyfer y gwisgoedd gorau.
2. Cable Street: Bydd perfformiadau o ddrama ddiweddaraf National Theatre Connections i fyfyrwyr ei gwyllo am 3.30pm ddydd Mawrth 8^{fed} a dydd Mercher 9^{fed} o Fawrth. Os hoffai unrhyw rieni wyllo'r ddrama, bydd cyfle i ymuno â'r gynulleidfa, a fydd yn ymbellhau yn gymdeithasol, Ddydd Iau, Mawrth 10^{fed} am 6.00pm-6.45pm. Cysylltwch â'r ysgol drwy ebostio richard.burrows@aberconwy.conwy.sch.uk os hoffech gael tocyn.
3. Adroddiadau interim: byddem yn croesawu eich adborth ar strwythur yr adroddiadau interim a anfonwyd allan ychydig wythnosau yn ôl. [CLICIWCH YMA](#) i roi gwybod i ni beth yw eich barn. Ar hyn o bryd rydym yn anfon adroddiadau yn electronig trwy ebost a thrwy Ap SchoolComms – os nad ydych wedi derbyn eich adroddiad, cysylltwch â'r dderbynfa yn y lle cyntaf, a fydd yn gallu eich helpu.

Rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi pa mor heriol yw'r cyfnod hwn o hyd i gymuned yr ysgol, ond rwy'n gobeithio y bydd y crynodeb hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os oes angen unrhyw gefnogaeth benodol ar gyfer eich plentyn wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ôl hanner tymor, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda llawer o ddiolch am eich holl gefnogaeth hyd yma y tymor hwn a dymuniadau gorau ar gyfer gwyliau hanner tymor hamddenol,

Ian Gerrard
Pennaeth.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

 BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE